# Maniffesto Anabledd Dysgu Cymru 2026

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

## Amdanom ni

Mae Anabledd Dysgu Cymru yn sefydliad aelodaeth sy'n cynrychioli'r sector anabledd dysgu yng Nghymru. Rydym ni'n gweithio gyda phobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, sefydliadau pobl anabl a'r trydydd sector i wneud Cymru y wlad orau yn y byd i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu, caru a gweithio ynddi.

**I gyflawni hyn, mae angen eich cefnogaeth arnom i wneud y canlynol:**

### Hyrwyddo pwysigrwydd gwybodaeth hygyrch

Sicrhau bod pobl ag anabledd dysgu yn gallu cael y wybodaeth maen nhw ei hangen i fyw eu bywydau a gwneud penderfyniadau gwybodus mewn fformat y gallant ei ddeall, fel Hawdd ei Ddeall.

### Cefnogi'r ymgyrch Bywydau Wedi'u Dwyn

Cyhoeddi cynllun clir, wedi'i ariannu ar sut y bydd pobl ag anabledd dysgu a/neu bobl awtistig yn cael eu symud allan o ysbytai/cyfleusterau iechyd meddwl ac yn ôl i'w cymunedau lleol.

### Cau'r bwlch cyflogaeth ymhlith pobl anabledd

Creu Strategaeth Hyfforddi Swyddi Genedlaethol i sicrhau bod gan bobl ag anabledd dysgu fynediad at gyflogaeth gefnogol a hyfforddiant swyddi.

### Lleihau anghydraddoldebau iechyd

Gwella defnydd ac ansawdd gwiriadau iechyd blynyddol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

## Cefnogi rhieni ag anabledd dysgu

Gwella cefnogaeth i rieni ag anabledd dysgu i alluogi mwy o deuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel.

## Lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol

Sicrhau bod pobl ag anabledd dysgu yn gallu datblygu a chynnal cyfeillgarwch a pherthnasoedd, a chymdeithasu yn y gymuned heb rwystrau.

## Blaenoriaethu cyllid digonol ar gyfer y sector anabledd dysgu

Sicrhau bod sefydliadau anabledd dysgu yn cael eu hariannu'n briodol i gefnogi pobl i fyw eu bywydau a ffynnu yn eu cymunedau.

## Cefnogi Maniffesto Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

Ochr yn ochr â gofynion ein maniffesto, rydym ni’n cefnogi gwaith y sefydliad hunaneiriolaeth Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan ac yn annog eich cefnogaeth iddyn nhw a'u maniffesto.

## Dysgu mwy

Am ragor o wybodaeth neu i gael sgwrs gyda ni am y maniffesto hwn, ewch i'n gwefan www.adcymru.org.uk, sganiwch y cod QR neu e-bostiwch policy@ldw.org.uk.